**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Helgard Krause
Prif Weithredwr
Cyngor Llyfrau Cymru

23 Mai 2024

**Ynghylch: Cyfle tendro newydd ar gyfer cylchgrawn newydd yng Nghymru**

Annwyl Helgard,

Diolch i chi am eich **ymateb** i'n **llythyr** dyddiedig 29 Ebrill 2024. Trafododd y Pwyllgor eich ymateb yn ein cyfarfod ar 15 Mai 2024. Byddem yn croesawu cael mwy o eglurder ar y pwyntiau canlynol:

1. O ran y broses apelio i ymgeiswyr aflwyddiannus (hynny yw, yn dilyn y broses dendro yn 2023), nodwyd gennych i'r apeliadau gael eu gwrando gan Gadeirydd y Panel Cylchgronau a Phennaeth yr Adran Datblygu Cyhoeddi. A allech gadarnhau pa rôl, os o gwbl, oedd gan y naill neu'r llall o'r personau hynny yn y broses gychwynnol o wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau?

2. Pryd, a pham, y penderfynodd y Cyngor Llyfrau gadw cyfran o arian o broses dendro 2023? Pam na ddosbarthwyd y cyllid hwn (gwerth tua £85,000 yn 2024) yn 2023?

3. Pa broses werthuso y mae'r Cyngor Llyfrau wedi'i chynnal o'i brosesau tendro dros y tair blynedd diwethaf.

4. Pa effaith y mae lefelau cyllid Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf wedi'i chael ar ystod a maint y gwasanaethau y gall y Cyngor Llyfrau eu hariannu?

Byddwn yn croesawu cael ymateb i'n cwestiynau erbyn 12 Mehefin 2024.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.